# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2020

Amser: 09.02 - 09.32

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod yr wythnos diwethaf i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.25pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.30pm.

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau amrywiol i Fusnes yr Wythnos Hon:

- ychwanegu dau gynnig i atal y Rheolau Sefydlog;
- ychwanegu datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol ar Bontio'r UE;
- ychwanegu dadl ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Mangre Ysgol a Mangre Sefydliad Addysg Bellach) (Cymru) 2020;
- ychwanegu dadl ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020;
- ychwanegu dadl ar Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020;

- ychwanegu dadl ar lefelau newydd o gyfyngiadau i ymateb i bandemig y coronafeirws;
- datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg, Gohiriwyd cyhoeddi'r polisi cenedlaethol ar drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd tan fis Ionawr 2021;
- mae'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach wedi'i gohirio.

Cytunodd y Pwyllgor mai trefn y Dadleuon Byr a drefnwyd ar gyfer 16 Rhagfyr fyddai Andrew RT Davies yn gyntaf a Neil Hamilton yn ail.

Trafododd y Pwyllgor y tebygolrwydd y bydd y Senedd yn cael ei hadalw rywbryd rhwng diwedd y tymor a 31 Rhagfyr i drafod materion yn ymwneud ag ymadael â'r UE, a chytunodd y dylai unrhyw gyfarfod adalw ddigwydd mewn fformat rhithwir.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 12 Ionawr 2021**

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (30 munud)
- ~~Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) (5 munud)~~ – Gohiriwyd tan 19 Ionawr

**Dydd Mawrth 19 Ionawr 2021**

- Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mawrth 26 Ionawr 2021**

- Dadl:  Cyfnod 3 y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) (180 munud)

**3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau busnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 13 Ionawr 2021 –**

- Dadl ar ddeisebau P-05-1063 a P-05-1074: mynediad i gyfleusterau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod y cyfyngiadau symud (60 munud)
- ~~Dadl ar ddeiseb P-05-1032 Deddfu i atal pobl rhag newid enwau Cymraeg tai (30 munud)~~
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~

**Dydd Mercher 20 Ionawr 2021 –**

- Dadl ar ddeiseb P-05-1032 Deddfu i atal pobl rhag newid enwau Cymraeg tai (30 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~

**Dydd Mercher 27 Ionawr 2021 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Papur i'w nodi - Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

### 4.2 Papur i'w nodi - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020

### 4.3 Papur i'w nodi - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Mangre Ysgol a Mangre Sefydliad Addysg Bellach) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyrau.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i bennu terfyn amser o 11 Ionawr i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Reoliadau Coronafeirws Rhif 5 a drefnwyd i'w trafod ar 12 Ionawr.

### 4.4 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021

Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn unol â Rheol Sefydlog 25.7(i) a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad arno yw 14 Ionawr.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Pwyllgor i drefnu 'Dadl ar ddeisebau sy'n ymwneud â mynediad i gyfleusterau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod y cyfyngiadau symud' am 60 munud ar 13 Ionawr, gan gymryd lle'r ddadl a drefnwyd yn flaenorol: P-

05-1032 Deddfu i atal pobl rhag newid enwau Cymraeg tai, ac aildrefnu'r ddadl honno i 20 Ionawr 2021, ac aildrefnu dadleuon y gwrthbleidiau yn unol â hynny.

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cytunodd y Pwyllgor i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad drefnu cyfarfodydd y tu allan i'w slot rheolaidd yn ystod yr wythnosau'n cychwyn 25 Ionawr, 1 Chwefror ac 8 Chwefror os oes angen.

## 6 Y Rheolau Sefydlog

### 6.1 Gweithdrefnau Busnes Cynnar

### 6.2 Gweithdrefnau Adalw

### 6.3 Adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â grwpiau gwleidyddol

Cytunodd y Pwyllgor i holi eu grwpiau am farn bellach ar y pynciau hyn ac adrodd yn ôl yn ystod cyfarfod ychwanegol cyntaf y Pwyllgor Busnes yn y flwyddyn newydd.